# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
# 29 CHWEFROR 2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Louise Hughes ac Annwen Daniels

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

a) Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Nodwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno, ac oherwydd bod troseddau perthnasol i'r maes trwyddedu wedi eu cynnwys ar y datganiad, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

b) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais. Cydnabuwyd bod y troseddau a ddatgelwyd yn gywir ond bellach yn rai hanesyddol. Nododd fod ganddo drwydded yrru lan ers iddo lwyddo yn ei brawf gyrru yn 2001. Amlygodd ei fod yn deall bod ganddo ddyletswydd fel gyrrwr tacsi i ofalu am

ei deithwyr a bod elfennau o gyfrinachedd i'w swydd. Roedd yn barod i dderbyn hyfforddiant.

Yn cefnogi cais Mr A roedd Perchennog Cwmni Tacsi lleol ac fe gadarnhaodd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd ers rhai blynyddoedd. Nododd bod yr ymgeisydd yn berson cwrtais, dibynadwy a gonest a bod swydd ar gael i Mr A petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu.

c) Cydnabuwyd dau lythyr o eirda oedd wedi eu derbyn

d) Ymneilltuodd yr ymgeisydd a pherchennog y Cwmni Tacsi o'r ystafell tra y bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

ch) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y ffactorau canlynol ynghyd a gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd.'

1. Bod gan yr ymgeisydd gollfarnau blaenorol am droseddau yn ymwneud ag yfed a gyrru a thrais.
2. Bod eglurhad yr ymgeisydd am yr amgylchiadau o gwmpas y collfarnau hynny yn dderbyniol
3. Bod y collfarnau am droseddau hanesyddol (dros 10 mlynedd yn ôl) ac wedi digwydd tu allan i gofnod y canllawiau perthnasol.
4. Nad oedd yr ymgeisydd wedi cronni unrhyw gollfarn am droseddau yn ymwneud â gyrru ers derbyn trwydded yrru yn 2001.
5. Bod ei ddarpar gyflogwr yn ymddiried ynddo fel darpar gyflogai yn ei gwmni tacsis.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Roedd yr Is Bwyllgor yn ddiolchgar i'r ymgeisydd am ei onestrwydd ac i'r cyflogwr am ei gefnogaeth. Dymunwyd y gorau i'r ymgeisydd yn ei swydd newydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 11.50 y.b.

**CADEIRYDD**